TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

WJEC / City & Guilds Health and Social Care: Core (Adults) and Principles and Contexts Level 2

Yn gryno

Byddwch yn caffael y wybodaeth ategol sydd ei hangen i weithio yn y sector gofal ac yn datblygu'r sgiliau sylfaenol sydd eu hangen i ddod â'ch gwybodaeth i'r lefel ofynnol ar gyfer ystod o gyrsiau.

Dyma'r cwrs i chi os...

...hoffech weithio mewn iechyd neu ofal cymdeithasol

...hoffech gael lleoliad gwaith rheolaidd

...hoffech gael cyfuniad o ddysgu theori ac ymarferol

Beth fyddaf yn ei wneud?

Mae'r cwrs yma yn ddelfrydol ar gyfer dysgwyr sy'n ceisio cyflogaeth yn y diwydiant iechyd neu

ofal cymdeithasol, a hoffai ymgymryd â lleoliad gwaith rheolaidd ynghyd â chwrs galwedigaethol cynhwysfawr.

Byddwch yn astudio dwy uned orfodol a phedair uned ddewisol megis:

Sgiliau cyfathrebu
Deall anghenion unigolion
Anatomi a ffisioleg
Amrywiaeth ddiwylliannol

Byddwch yn dysgu trwy waith grwp, dysgu yn y dosbarth a phrofiad gwaith, sy'n rhan orfodol o'r rhaglen.

Cewch eich asesu trwy aseiniadau ac arholiadau a byddwch yn cyflawni:

Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 2
Cymwysterau priodol cefnogol i ehangu eich set sgiliau a diwallu anghenion y diwydiant
Gweithgareddau Sgiliau
Mathemateg a Saesneg

Beth a ddisgwylir ohonof i?

Mae'n rhaid cael ymrwymiad llawn i bresenoldeb, ynghyd â pharch tuag at eraill, brwdfrydedd am y pwnc, hunangymhelliant a brwdfrydedd am y diwydiant iechyd a gofal cymdeithasol. Cewch eich asesu yn barhaus a bydd disgwyl i chi barhau â'ch astudiaethau a'ch gwaith cwrs yn eich amser eich hun.

Er mwyn ymuno â'r cwrs, bydd angen o leiaf 4 TGAU Gradd D neu uwch arnoch, gan gynnwys naill ai Mathemateg/Llythrennedd mewn Mathemateg neu Saesneg/Cymraeg Iaith Gyntaf, neu gymhwyster Diploma Lefel 1 priodol yn y maes galwedigaethol priodol, gan gynnwys naill ai TGAU mewn Mathemateg/Llythrennedd mewn Mathemateg neu Saesneg/Cymraeg Iaith Gyntaf.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Cyfle i symud ymlaen i egwyddorion a gwerthoedd lefel 3 neu ymarfer lefel 2 City & Guilds (oedolion).

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Gwybodaeth Ychwanegol

Bydd yn rhaid i bob dysgwr gael gwiriad DBS boddhaol.